TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

BTEC Enhanced Engineering Programme - Mechanical Level 3

Yn gryno

Bydd y Rhaglen Beirianneg Uwch lawn amser hon yn darparu hyfforddiant, profiad gwaith go iawn a chyfle i symud ymlaen at brentisiaeth wedi'i noddi'n llwyr.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych eisiau dilyn gyrfa mewn Peirianneg Fecanyddol

... Ydych eisiau symud ymlaen at brentisiaeth

... Hoffech gael cymysgedd o elfennau damcaniaethol ac ymarferol yn eich astudiaeth

Beth fyddaf yn ei wneud?

Bydd y cwrs hwn yn cael ei gyflwyno'n llawn amser dros gyfnod o 36 wythnos am 30 awr yr wythnos ar gampws y coleg. Ceir rhwng 5 wythnos a 12 wythnos o leoliad profiad gwaith. Byddwch yn ymweld â nifer o'r prif gwmnïau gweithgynhyrchu yng Nghymru.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Dyma gwrs ymarferol, cysylltiedig â gwaith, lle y byddwch yn dysgu trwy gwblhau prosiectau ac aseiniadau a fydd yn seiliedig ar sefyllfaoedd gweithle realistig. Byddwch yn astudio unedau fel:

Iechyd a diogelwch
Cyfathrebu
Egwyddorion mecanyddol a'u defnydd
Mathemateg
Prosesau gorffen/eilaidd
Technegau mesur ac archwilio
Drafftio gyda chymorth cyfrifiadur
Nodweddion deunyddiau peirianegol a'u defnydd
Arlunio peirianegol ar gyfer technegwyr

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng aseiniadau ymarferol ac ysgrifenedig, cyflwyniadau, portffolios, arddangosiadau ac arsylwi. Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn ennill:

Lefel 3 mewn Peirianneg (Mecanyddol)
Lefel 2 PEO (Sefydliad Cyflogwr Proffesiynol) – 6 uned a ddewisir i ategu gofynion penodol y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru ar y cwrs hwn, bydd angen ichi basio prawf dawn Prentisiaeth (ymarfer sgrinio hollbwysig (Skillbuilder/Vark)) a meddu ar:

5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys:

Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf,
Gradd B mewn Mathemateg
Tair Gradd C arall, os oes modd mewn Gwyddoniaeth neu bynciau cysylltiedig

Mae'n ofynnol ymrwymo'n llwyr i fynychu'r cwrs. Bydd angen ichi allu gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm. Hefyd, mae dymuniad cryf i weithio yn y diwydiant peirianneg yn ofynnol, gan y

bydd y cwrs hwn yn arwain at brentisiaeth. Disgwylir i bawb gadw at ethos y coleg a bod yn barod i gymryd rhan mewn o leiaf 5 wythnos o leoliad gwaith.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Prentisiaeth mewn Peirianneg Fecanyddol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Byddwch yn cael cist offer a fydd yn werth oddeutu £200.000 ar ôl ichi gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus.

Bydd angen ichi ddarparu eich defnyddiau ysgrifennu eich hun e.e. ffolderi, dalennau rhannu, pennau ysgrifennu, penseli, penseli lliw, cwmpas, pren mesur a chyfrifiannell wyddonol.